# Gwasanaeth Seicoleg Addysgol Sir Fynwy

## Blynyddoedd Cynnar

Gwybodaeth i Rieni a Gofalwyr Ar gyfer plant o'u genedigaeth hyd at 5 oed

Gweithio gyda'n gilydd i gynorthwyo dealltwriaeth a chefnogi lleoliadau a theuluoedd i alluogi plant sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol i fwynhau a chymryd rhan mewn profiadau chwarae a dysgu, a helpu i baratoi ar gyfer pontio i'r ysgol.

### Ar ba bydd ymwneud gan Seicolegydd Addysg?

Efallai y bydd gan rywun sy'n adnabod eich plentyn yn dda, er enghraifft gweithiwr iechyd proffesiynol neu aelod o staff Blynyddoedd Cynnar, bryderon ynghylch datblygiad eich plentyn. Efallai y bydd eich plentyn eisoes yn hysbys i Athro Ymgynghorol Blynyddoedd Cynnar.Byddant wedi trafod eu pryderon gyda chi ac wedi cael eich cydsyniad i ofyn am ein cyfranogiad drwy'r Panel ADY Blynyddoedd Cynnar.

### Beth i'w ddisgwyl?

Unwaith y cytunir ar ein cyfraniad, byddwn yn cysylltu â chi a lleoliad y blynyddoedd cynnar i drefnu ymweliad.Bydd hyn fel arfer yn cynnwys arsylwi ar eich plentyn, rhywfaint o asesiad trwy chwarae, a thrafodaeth gyda chi ac unrhyw weithwyr proffesiynol eraill. Dylai hyn arwain at well dealltwriaeth o anghenion eich plentyn yn ogystal â chamau gweithredu y cytunwyd arnynt i gefnogi'r camau nesaf yn natblygiad addysgol eich plentyn.

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd cynnydd yn cael ei adolygu a byddwch yn cael eich cynnwys yn y broses hon. Unwaith y bydd lle ysgol wedi'i gadarnhau, byddwn yn trefnu Cyfarfod Cynllunio Mynediad Ysgol gyda chi, lleoliad eich plentyn, yr ysgol sy'n derbyn ac unrhyw weithwyr proffesiynol eraill sy'n ymwneud â'ch plentyn, i gynllunio ar gyfer pontio llwyddiannus i'r Dosbarth Derbyn. Cynhelir Cyfarfod Adolygu Mynediad Ysgol 6 - 8 wythnos ar ôl i'ch plentyn ddechrau'r ysgol er mwyn adolygu'r newid a chytuno ar unrhyw gamau pellach a fydd yn helpu i gefnogi eich plentyn.

"Chwarae yw hoff ffordd ein hymennydd o ddysgu."

### Angen fwy o wybodaeth?

Am ragor o wybodaeth ewch i'r wefan trwy sganio'r cod QR neu wrth glicio ar y ddolen hon. Ar gyfer ymholiadau cysylltwch â: wendyedwards@monmouthshire.gov.uk 01633 644418

